MPTS Medical Practitioners Tribunal Service

Ffurflen M1 – Dod â Chyfaill McKenzie gyda chi

Enw'r unigolyn cofrestredig	
Dyddiad dechrau'r gwrandawiad	
Dyddiad cwblhau	

Nodiadau esboniadol

- Llenwch Ran A y ffurflen hon os ydych chi'n cynrychioli eich hun mewn gwrandawiad ac yn dymuno dod â pherson gyda chi i'ch helpu chi fel Cyfaill McKenzie.
- Rhaid i'ch Cyfaill McKenzie lenwi Rhan B y ffurflen hon i gadarnhau y bydd yn glynu wrth y cod ymddygiad a nodir.
- Ar ôl ei llenwi, anfonwch eich ffurflen at dîm Rheoli Achosion MPTS yn MPTSCaseManagementTeam@mpts-uk.org.

Rhan A: I'w llenwi gan yr unigolyn cofrestredig

Rhowch y wybodaeth ganlynol:

Enw'r Cyfaill McKenzie arfaethedig				
Ydy'r person hwn yn dyst yn yr achos hwn? *	Ydy	☐	Nac ydy	☐
Ydy'r person hwn yn bwriadu siarad ar eich rhan yn y gwrandawiad? *	Ydy	☐	Nac ydy	☐

*Os ydych chi wedi ateb Ydy, efallai na fydd yr unigolyn yn gallu bod yn Gyfaill McKenzie. Gofynnwch am gyngor gan dîm Rheoli Achosion MPTS.

Sut ydych chi'n adnabod eich Cyfaill McKenzie arfaethedig?	Perthynas	☐	Cyd-weithiwr	☐

	Ffrind	☐	Arall	☐
Os ydych chi wedi dewis Perthynas neu Arall, rhowch fanylion:				

Rhan B: i'w llenwi gan y Cyfaill McKenzie

Darllenwch y cod ymddygiad canlynol a llenwi'r datganiad.

- Fel Cyfaill McKenzie, gallwch roi cymorth i'r unigolyn cofrestredig sy'n rhan o wrandawiad tribiwnlys drwy wneud tasgau fel cymryd nodiadau, helpu gyda phapurau'r achos a rhoi cyngor yn dawel i'r unigolyn rydych yn ei gynorthwyo.

- Ni allwch siarad ar ran yr unigolyn cofrestredig, gwneud sylwadau na holi tystion.

- Eich rôl chi yw cynorthwyo'r unigolyn cofrestredig. Os oes gennych fuddiant personol yng nghanlyniad yr achos, yna cyn cytuno i gynorthwyo, dylech ystyried a fyddai rhywun arall nad oes ganddo fuddiant personol mewn sefyllfa well i helpu.

- Cewch ddod i'r gwrandawiad a darllen y papurau ar gyfer yr achos oni bai fod y tribiwnlys yn dweud na allwch wneud hynny. Rhaid i chi sicrhau bod unrhyw wybodaeth rydych yn ei chael yn cael ei chadw'n gyfrinachol.

- Rhaid i chi ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau mae'r tribiwnlys yn eu rhoi a sicrhau eich bod yn gwrtais ac yn barchus at bawb bob amser.

- Rhaid i chi sicrhau nad yw'r ffordd rydych yn cynorthwyo'r unigolyn yn achosi unrhyw darfu nac yn tynnu sylw pobl eraill.

- Rhaid i chi ymddwyn yn onest a pheidio â gwneud unrhyw beth a allai gamarwain y tribiwnlys neu unrhyw un arall.

Rwyf wedi darllen y cod ymddygiad ac yn cytuno i lynu wrtho.	Ydw	☐	Nac ydw	☐
Oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch oherwydd anabledd?				

Enw:	
Dyddiad:	